



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Canllawiau i Lywodraethwyr

Canllaw Ymarferol i Lywodraethwyr Ysgolion

Cynnwys

	tudalen
Crynodeb	1
1. Cyflwyniad	2
2. Pam y dylai ysgolion fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?	4
3. Beth all ysgolion ei wneud i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?	5
4. Beth all llywodraethwyr ysgolion ei wneud i leihau effeithiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hysgolion?	6
5. Aelodau o Staff	9
6. Cyflawnwyr – staff a disgyblion	9
7. Cefnogi pobl sy'n dioddef trais yn erbyn mewnyd, cam-drin domestig a thrais rhywiol – staff a disgyblion	9
Atodiad A – Gofynion a chanllawiau cyfreithiol	
Atodiad B – Rôl y Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Amddiffyn Plant	
Atodiad C – Rhestr Wirio i Ysgolion	
Atodiad Ch – Enghraifft o Bolisi Gweithle (wedi'i addasu o Bolisi Enghreifftiol Bristol Ideal)	

Crynodeb

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith fawr ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u lles, eu cyrhaeddiad addysgol, eu perthynas â'u teuluoedd a'u cymheiriaid a'u gallu i fwynhau perthynas iach, hapus a pharchus yn y dyfodol.

Mae'n debygol y bydd pobl ifanc a staff yn eich ysgol chi sy'n profi neu'n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Dylai pob ysgol fod yn gyfrifol am sicrhau bod ei disgyblion a'i staff yn ddiogel ac yn iach.

Rydym wedi llunio'r canllaw hwn i hysbysu llywodraethwyr ysgolion am faterion sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r angen i roi polisi priodol ar waith i helpu staff i adnabod arwyddion camdriniaeth a gwybod sut i gael cymorth iddyn nhw eu hunain, er mwyn cynorthwyo eu cydweithwyr a'r bobl ifanc yn eu hysgol. Mae'r canllaw yn cynnwys nifer o gamau gweithredu y gall llywodraethwyr eu cymryd i wneud eu hysgol yn fwy diogel. Ceir rhestr wirio yn Atodiad C a fydd yn eich galluogi i asesu pa mor dda mae eich ysgol wedi paratoi i gefnogi plant a phobl ifanc ar faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

1. Cyflwyniad

Beth yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Mae'r mathau o ymddygiad yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a cham-drin rhywiol, camfanteisio'n rhywiol, anffurfio organau cenhedlu menywod, a elwir hefyd yn drais yn seiliedig ar 'anrhydedd' a phriodas dan orfod (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).

Pa mor gyffredin yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Mae'r materion hyn yn effeithio ar ddynion a menywod, ond menywod a merched sy'n eu profi gan fwyaf:

- mae 1.4 miliwn o fenywod a 700,000 o ddynion rhwng 16 a 59 oed wedi dweud eu bod wedi profi achosion o gam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru a Lloegr;¹
- menywod iau rhwng 16-24 oed sy'n wynebu'r perygl mwyaf a chaiff menyw ei lladd bob 2.4 diwrnod yn y DU. Lladdwyd 148 o fenywod gan ddynion yn y DU yn 2014;²
- mae 750,000 o blant a phobl ifanc ledled y DU yn tystio neu'n profi cam-drin domestig bob blwyddyn ac mae cyfran sylweddol yn profi camdriniaeth yn eu perthnasoedd eu hunain;³
- mae tua 124,000 o fenywod, dynion, bechgyn a merched dros 16 mlwydd oed yng Nghymru wedi dioddef trosedd rhywiol;⁴
- mae 137,000 o ferched a menywod yn byw gyda chanlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU⁵ ac mae 60,000 o ferched o dan 15 mlwydd oed mewn perygl o ddioddef yn sgil anffurfio organau cenhedlu yn y DU.⁶ Amcangyfrifir bod 140 o fenywod y flwyddyn yn dioddef yn sgil anffurfio organau cenhedlu yng Nghymru;
- roedd 82% o'r achosion yr ymdriniodd yr Uned Priodasau dan Orfod â hwy yn ymwneud â dioddefwyr gwrywaidd. Amcangyfrifir bod hyd at 100 o ddioddefwyr priodas dan orfod y flwyddyn yng Nghymru;⁷
- mewn astudiaeth gan yr NSPCC o bobl ifanc sydd mewn perthynas glos, roedd 25 y cant o'r merched ac 18 y cant o'r bechgyn wedi cael eu cam-drin yn gorfforol; roedd 75 y cant o'r merched ac 14 y cant o'r bechgyn wedi cael eu cam-drin yn emosiynol; ac roedd 33 y cant o'r merched ac 16 y cant o'r bechgyn brofi cam-drin rhywiol.⁸

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015), gan ddyfynnu mynegai Dynladdiadau gan y Swyddfa Gartref.

² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015), gan ddyfynnu mynegai Dynladdiadau gan y Swyddfa Gartref

³ Yr Adran Iechyd, 2002.

⁴ Yn seiliedig ar ddata o Overview of Sexual Offending Report 2013

⁵ Female Genital Mutilation in England and Wales: Updated statistical estimates of the numbers of affected women living in England and Wales and girls at risk – Interim report on provisional estimates.

⁶ <http://www.forwarduk.org.uk/key-issues/fgm/>

⁷ Y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad – Ystadegau yr Uned Priodasau dan Orfod Ion-Rhag 2013.

⁸ NSPCC - Radford, L. et al (2011) [Child abuse and neglect in the UK today](#)

- canfuwyd bod merched nid yn unig yn dioddef mwy o gamdriniaeth, ond eu bod hefyd yn dioddef camdriniaeth fwy difrifol yn amlach a bod hyn yn cael effeithiau mwy negyddol ar eu lles, o gymharu â bechgyn.

Mae'r ystadegau hyn yn golygu bod pawb ohonom fwy na thebyg yn adnabod rhywun sydd wedi cael y profiadau hyn. Er enghraifft:

- Mewn gweithle sydd â 4,000 o gyflogeion, bydd rhwng 800 a 1,000 o'r staff wedi cael profiad uniongyrchol o gam-drin domestig ar ryw adeg yn ystod eu bywydau. Felly, mewn ysgol sydd â 250 o staff, mae'n debygol bod tua 50 ohonynt wedi dioddef, neu yn dioddef trais a chamdriniaeth; ac
- Mewn ysgol Uwchradd sydd â 1,000 o blant, sy'n cynnwys yr un faint o fechgyn â merched, bydd 250 o ferched a 180 o fechgyn wedi profi rhyw fath o drais a gyflawnwyd gan eu cariad.⁹

Dyma pam mae'n bwysig bod pawb sydd mewn swydd gyfrifol yn ein hysgolion yn ymwybodol o ddull ysgol gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn ymrwymedig i hynny.

⁹ Yn seiliedig ar ffigurau NSPCC - Partner exploitation and violence in teenage intimate relationships - Christine Barter et al

2. Pam y dylai ysgolion fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Mae ysgolion mewn sefyllfa dda i adnabod arwyddion a symptomau oedolyn, plentyn neu berson ifanc a allai fod yn ofidus:

- gall trais a chamdriniaeth effeithio ar ddatblygiad academaidd a phersonol plant a phobl ifanc;
- gall ysgolion hefyd fod yn fan diogel i oedolion, plant a phobl ifanc sy'n profi trais yn y cartref;
- mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion trawsgwricwlaidd a gellir eu hintegreiddio i amrywiaeth o faterion a phynciau eraill megis bwlio, addysg bersonol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd, addysg rhyw a pherthnasoedd, yn ogystal â thrwy lenyddiaeth, mathemateg ac ati.

Mae gan ysgolion nifer o ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r gwaith hwn (gweler Atodiad A):

- mae gan ysgolion ddyletswydd i ddiogelu lles plant
- mae gan ysgolion rwymedigaeth gyfreithiol i hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a chymdeithasol disgyblion.

3. Beth all ysgolion ei wneud i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Gall ysgolion fabwysiadu dull addysg gyfan sy'n cynnwys addysg ataliol drwy gydol bywyd yn yr ysgol, ac sy'n cynnwys y gymuned. Canfuwyd bod hyn yn cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar ddisgyblion a staff. Mae ymchwil hefyd wedi dangos pwysigrwydd y dull hwn wrth ddysgu a mabwysiadu dulliau a strategaethau atal bwlio, ac o ran atal cam-drin plentyn yn rhywiol.¹⁰

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chymorth i Ferched Cymru *Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a thrais Rhywiol yng Nghymru* a fydd yn helpu ysgolion i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r canllaw:

- yn amlinellu elfennau allweddol dull addysg gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys datblygu polisïau a strategaethau a rôl llywodraethwyr;
- yn darparu canllaw i ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach, ar sut i ddatblygu, sefydlu a gweithredu dull addysg gyfan yn llwyddiannus i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a pharchu a herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac
- yn nodi enghreifftiau o arferion effeithiol yng Nghymru a'r DU.

Gellir dod o hyd i'r canllaw yn: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/good-practice-guide-a-whole-education-approach/?skip=1&lang=cy>

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiad o adnoddau ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a fydd ar gael drwy <http://bywhebofn.llyw.cymru>. Bydd hwn hefyd yn helpu ysgolion a llywodraethwyr ganfod deunyddiau addas ac arferion gorau.

¹⁰ Cross et al (2011), Farrington and Tfofi (2009) a Vreeman and Carroll (2007).

4. Beth all llywodraethwyr ysgolion ei wneud i leihau effeithiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hysgolion?

Cymorth drwy godi ymwybyddiaeth ac addysg perthnasoedd iach

Mae gan lywodraethwyr ysgolion rôl allweddol i'w chwarae wrth fabwysiadu a chefnogi dull addysg gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cynghorir ac anogir llywodraethwyr i gymryd camau i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn cael ei drin â pharch ac urddas, gan gynnwys:

1. Cefnogi'r pennaeth ac uwch aelodau o staff yr ysgol drwy sicrhau bod yr ysgol wedi sefydlu polisi priodol sy'n:
 - codi ymwybyddiaeth ymysg y staff a'r disgyblion;
 - hyrwyddo ethos yr ysgol gyfan ar y materion hyn; ac
 - yn creu amgylchedd ble y caiff dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu grymuso a'u cynorthwyo i ddatgelu eu profiadau;
2. Bydd cadarnhau a chyhoeddi polisi sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel rhan o ddull addysg gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (y rhestr wirio yn Atodiad C) yn helpu i ganfod pa gamau gweithredu sy'n ofynnol yn eich ysgol chi. Ceir polisi enghreifftiol yn Atodiad Ch);
3. Enwebu llywodraethwr penodedig i gefnogi'r pennaeth ac uwch aelodau o staff i fonitro polisi'r ysgol. Awgrymir mai'r Llywodraethwr Cyswllt Amddiffyn Plant fyddai'r llywodraethwr mwyaf priodol, ond bydd angen cymorth y corff llywodraethu cyfan ar gyfer y broses fonitro;
4. Gweithio gyda gwasanaeth cwnsela'r Awdurdod Lleol i blant a phobl ifanc¹¹, fel rhan o ddull ysgol gyfan o gefnogi iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc. Gall y dull ysgol gyfan hwn gwmpasu dulliau eraill o gefnogi lles emosiynol, er enghraifft grwpiau anogaeth, dull sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar, Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL), Hybu Strategaethau Meddwl Amgen (PATHS), i enwi dim ond rhai; a
5. Annog llywodraethwyr a staff i gael hyfforddiant yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o dan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae pecyn e-ddysgu er mwyn codi ymwybyddiaeth ar gael am ddim¹² ac o fis Ebrill 2016 ymlaen, ceir hyfforddiant lleol ar sut i "Ofyn a Gweithredu" ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a bydd rôl "eiriolwr" ar gael yn rhanbarthol.

¹¹ Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwasanaethau cwnsela rhesymol yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 mlwydd oed yn eu hardal a disgyblion ym mlwyddyn 6 ysgolion cynradd.

¹² <http://livefearfree.gov.wales/guidance-for-professionals/national-training-framework/?skip=1&lang=cy>

Adnabod a montiro trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ysgolion

Gallai'r broses o fonitro polisi'r ysgol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ysgolion gynnwys:

- sicrhau bod y polisi a fabwysiadwyd gan yr ysgol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei adolygu'n rheolaidd (y rôl a ddisgrifir yn Atodiad B);
- sicrhau bod rôl y llywodraethwr penodedig yn cyfeirio'n benodol at gefnogi a diogelu mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cyd-drafod â chyngor yr ysgol a'i annog i edrych ar bolisi'r ysgol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a phobl ifanc, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac awgrymu ffyrdd o'i wella, os bydd angen;
- ymgynghori â rhieni er mwyn sicrhau bod y polisi a gaiff ei fabwysiadu gan yr ysgol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystyried eu barn a'u profiadau;
- ymgynghori â disgyblion mewn modd sensitif ar ôl gofyn caniatâd y rhieni a sicrhau bod y deunydd mewn fformat priodol;
- sicrhau bod y polisi a'r mater o gefnogi staff a phobl ifanc sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hysgol yn cael ei drafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu drwy ofyn am adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth am effeithiolrwydd polisi'r ysgol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hysgol;
- gweithio gyda'r pennaeth er mwyn sicrhau bod systemau ar waith i ganfod a chofnodi achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a bod pawb yn yr ysgol yn gwybod am y systemau a beth i'w wneud, gan gynnwys atgyfeirio i wasanaethau arbenigol pan fo angen;
- cefnogi'r pennaeth ac uwch staff yr ysgol i gynnal gwersi ar berthnasod iach sy'n briodol i oedran a ddarperir drwy, er enghraifft, Rhaglen Sbectrwm Hafan Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Prosiect Mae Plant yn Bwysig Cymorth i Ferched Cymru a Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Gellir defnyddio'r rhaglenni hyn i hyfforddi staff, helpu i ddatblygu cwricwlwm sydd â gwersi perthnasol, cydhwyluso gwersi, helpu i fonitro a gwerthuso'r gwersi, creu cysylltiadau i gynorthwyo llwybrau atgyfeirio neu gynnig gwasanaethau cymorth a sesiynau galw heibio;
- cefnogi'r pennaeth i gyflwyno dulliau priodol i gasglu tystiolaeth am achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymysg disgyblion a staff;

- sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhoi ar wefan yr ysgol er mwyn helpu disgyblion i ddysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, megis cysylltiadau â gwefan Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru a Llinell Gymorth 24 awr Byw Heb Ofn.

5. Aelodau o Staff

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am les disgyblion, mae gan lywodraethwyr hefyd ddyletswydd gyfreithiol i ofalu am staff yr ysgol, yn arbennig o ran iechyd unigolyn a allai fod mewn perygl o ganlyniad i lefelau straen gormodol a pharhaus.

Gall un math o straen ddeillio pan fydd aelod o staff o'r naill ryw yn profi unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

6. Cyflawnwyr – staff a disgyblion

O gofio nifer yr achosion o berthnasoddd afiach a'r ystadegau a nodwyd yn gynharach yn y canllaw hwn, mae'n debygol bod rhai disgyblion a staff yn eich ysgol yn cyflawni'r math hwn o fwlio neu aflonyddwch. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ysgolion gael polisi ymddygiad ysgrifenedig sy'n cwmpasu gwrthfwlio, neu sydd â chysylltiadau amlwg â pholisi gwrthfwlio ar wahân. Dylai gweithdrefnau disgyblu staff hefyd fod yn eu lle ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn aelodau o staff lle y bo'n briodol, ac y dylid cyfeirio atynt yn y trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a polisi trais rhywiol.

(Atodiad Ch)

7. Cefnogi pobl sy'n dioddef trais yn erbyn mewnyd, cam-drin domestig a thrais rhywiol – staff a disgyblion

Mae'n hanfodol gosod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn fframwaith diogelu presennol yr ysgol/sefydliad addysg bellach i sicrhau bod ymarfer yn cydfynd â'r canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel*. Mae hyn yn cynnwys defnyddio rôl yr uwch swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw bryderon ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Dylai fod cysylltiadau i wasanaethau cymorth arbenigol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. I drafod unrhyw bryderon am y materion hyn, gall unrhyw un gysylltu â'r **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** 24 awr (0808 80 10 800).

Gofynion a chanllawiau cyfreithiol

Diogelu

Mae'n hanfodol sefydlu'r broses hon o fewn fframwaith diogelu presennol yr ysgol er mwyn sicrhau bod ymarfer yn gydnaws â'r canllaw *Cadw dysgwyr yn ddiogel*

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy>

Mae hyn yn cynnwys defnyddio rôl yr uwch swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar faterion diogelu sy'n cynnwys materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.¹³

Mae'r ddogfen yn cynnwys canllawiau i Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu ar drefniadau er mwyn diogelu plant dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Ceir rhwymedigaethau cyfreithiol i gyflogwyr a sefydliadau addysgol yn y meysydd hyn ac fe'u hamlygir yn y canllawiau.

Mae *Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* yn cynnwys canllawiau ymarfer Cymru gyfan ar ddiogelu plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt er mwyn cynorthwyo ymarferwyr wrth ymateb i bryderon.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Yn 2016, caiff canllawiau statudol ar addysg eu cyhoeddi o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd y canllawiau yn amlinellu'r disgwyliadau ar Awdurdodau Lleol o ran dull addysg gyfan o ymdrin â pherthnasoedd iach, ac o ran eiriolwyr. Ceir darpariaeth yn y Ddeddf hefyd i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, drwy Reoliadau, gofnodi'n flynyddol y camau y maent yn eu cymryd yn eu lleoliadau addysgol, gan gynnwys ysgolion, er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ddileu gwahaniaethu, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail rhyw a rhywedd, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003

Mae pob math o anffurfio organau rhywiol benywod yn anghyfreithlon yn y DU dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae *Protocol Plant Cymru Gyfan ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod* yn rhoi cyngor ar ddiogelu merched rhag anffurfio organau

¹³ Pennod 3 o '*Cadw dysgwyr yn ddiogel*' t.93 Atodiad 3: Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>

cenhedlu. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi llunio *canllawiau amlasiantaeth* sy'n amlinellu'r camau y dylai gweithwyr proffesiynol yn y rheng flaen, megis athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, eu cymryd i ddiogelu merched a menywod a chynnig y cymorth sydd ei angen arnynt.

Priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd

O dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, mae'n drosedd gorfodi rhywun i briodi.

Mae canllawiau ymarfer amlasiantaeth Llywodraeth EM: *Handling cases of Forced Marriage*, a ddiweddarwyd ym mis Awst 2014, yn darparu cyngor cam wrth gam i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys athrawon. Mae'n ategu'r canllaw statudol *The Right to Choose* a ddaeth i rym pan lansiwyd Deddf Priodasau dan Orfod (Diogelwch Sifil) ym mis Tachwedd 2008 ac mae'n amlinellu cyfrifoldebau strategol ehangach prif weithredwyr ac uwch reolwyr wrth fynd i'r afael â phriodas dan orfod yn lleol.

Mae *Priodas dan Orfod ac Anableddau Dysgu: Canllawiau Arfer Amlasiantaeth* yn helpu gweithwyr proffesiynol i ymdrin â phobl ag anableddau dysgu sy'n priodi dan orfod. Ei nod yw helpu i godi ymwybyddiaeth a chefnogi ymarferwyr i ganfod arwyddion rhybudd yr ymarfer cymhleth hwn, sy'n aml yn guddiedig. Mae Pennod 9 o *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* hefyd yn cynnwys canllawiau ar briodas dan orfod.

Estyn

Mae fframwaith arolygu cyffredin Estyn yn cynnwys meini prawf er mwyn gwerthuso lles disgyblion. Mae hyn yn ystyried pa mor dda mae'r ysgol yn diogelu ei disgyblion; trefniadau ar gyfer rheoli materion amddiffyn plant; polisiâu er mwyn mynd i'r afael â bwlio a thrais; agweddau ar y cwricwlwm sy'n cwmpasu dewisiadau byw'n iach; a phwysigrwydd perthynas gadarnhaol a pharchus.

Gall trais a cham-drin domestig beryglu datblygiad ac addysg plentyn neu berson ifanc. Mae'n hanfodol bod trefniadau diogelu ysgolion yn canfod dioddefwyr ac yn darparu cymorth i'w helpu i gadw'n ddiogel a chyflawni eu potensial.

Mae meini prawf gwerthuso Estyn ar gyfer trefniadau lles a diogelu ysgol yn ystyried y gofal, y cymorth a'r canllawiau a ddarperir gan ysgolion. Mae'r rhain yn gwbl berthnasol er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae canllawiau arolygu Estyn ar gyfer arolygu'r cymorth a'r canllawiau gofal a ddarperir gan ysgol yn datgan mai arolygwyr a fydd yn gwneud y prif ddyfarniadau ynghylch darpariaeth diogelu a hyrwyddo lles yr ysgol, gan gynnwys:

- amddiffyn plant;
- bwlio;
- aflonyddu a gwahaniaethu;

- addysg rhyw a pherthnasoedd;
- diogelwch y rhyngrwyd;
- ymddygiad a diogelwch disgyblion
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Rôl y Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Amddiffyn Plant

<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2012/09/19/0312-llywodraethwyr-cyswllt/>

<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2012/09/19/0312-llywodraethwyr-cyswllt/>

Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgareddau a wneir i ddiogelu plant penodol sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Mae amddiffyn plant yn effeithiol yn hanfodol fel rhan o waith ehangach i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau effeithiol wedi'u sefydlu er mwyn diogelu plant, a monitro i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â hwy. Argymhellir y dylai pob corff llywodraethu enwebu llywodraethwr amddiffyn plant i hyrwyddo pwysigrwydd diogelu ac amddiffyn plant. Bydd y llywodraethwr amddiffyn plant yn cefnogi ac yn cynorthwyo'r corff llywodraethu i gael gwell dealltwriaeth a gwybodaeth am y ddarpariaeth amddiffyn a diogelu plant o fewn yr ysgol. Y rôl yw:

- cadarnhau bod gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant, sy'n gyson â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008¹⁴, a'i fod yn cael ei adolygu'n flynyddol ac ar gael yn gyfleus i bob aelod o staff;
- bod yn gyfarwydd â Pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Canllawiau Cylchlythyr Llywodraeth Cymru "Diogelu Plant mewn Addysg"¹⁵ a chael y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau amddiffyn a diogelu plant yn genedlaethol ac yn lleol gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol;
- sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefn ddisgyblu staff gyfredol y cytunwyd arni ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn gan staff, gan gynnwys honiadau o gam-drin plant, a bod y weithdrefn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys penodi ymchwilydd annibynnol, ac sy'n ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol;
- cyfarfod fel a phan fo angen, drwy apwyntiad, â'r aelod dynodedig o staff ar gyfer amddiffyn plant er mwyn monitro effeithiolrwydd y Polisi Amddiffyn Plant yn yr ysgol (yn unol â pholisi Ymweliadau Llywodraethwyr ag Ysgolion);
- gweithio gyda llywodraethwr cyswllt Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) (os yw'n briodol);
- helpu i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau ac unigolion perthnasol;

¹⁴ Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 <http://www.awcpp.org.uk/9547.html?diablo.lang=eng>

¹⁵ <http://www.governorswales.org.uk/publications/2008/04/01/safeguarding-children-education/>

- helpu i sicrhau bod yr ysgol yn cadw cofnodion cywir a bod y ffeil amddiffyn plant yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf;
- bod yn ymwybodol o nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ar hyn o bryd;
- sicrhau bod y staff a'r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol a bod pob aelod o staff a llywodraethwr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant;
- sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel wedi'u sefydlu a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o aelodau newydd o staff a gwirfoddolwyr;
- deall sut yr ymdrinnir â materion diogelu ac amddiffyn plant drwy'r cwricwlwm;
- cyflwyno adroddiad i'r corff llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn, heb drafod manylion disgyblion unigol, ar weithredu'r polisi amddiffyn plant;
- sicrhau bod ei wybodaeth am amddiffyn plant yn gyfredol drwy fynychu cyrsiau hyfforddi sy'n berthnasol i lywodraethwyr a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol.

Atodiad C

Rhestr wirio i Ysgolion (wedi'i haddasu o ganllawiau ataliol AVA i ysgolion)

Bydd y rhestr wirio hon yn eich helpu i asesu pa mor dda y mae eich ysgol wedi paratoi er mwyn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sy'n delio â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).

Pwyntiau gweithredu allweddol	Ydy/Ydyn	Nac ydy/ Nac ydyn	Os nac ydy/nac ydyn yw'r ateb, sut y gellir cyflawni hyn?
Mae'r uwch swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant wedi derbyn hyfforddiant mewn VAWDASV			
Mae'r corff llywodraethu wedi sefydlu polisi cynhwysfawr sy'n hysbys i bob aelod o staff a phob disgybl ac wedi'i gynnwys ar wefan yr ysgol ar gyfer y rhieni a'r disgyblion.			
Mae'r ysgol yn cydnabod effaith bosibl VAWDASV ar gyrhaeddiad addysgol ac ymddygiad plentyn			
Mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu i ymdrin â chyflawnwyr sy'n ceisio defnyddio'r ysgol i ddod o hyd i'w cyn bartner neu blentyn			
Mae taflenni a phosteri am VAWDASV a'r gwasanaethau sydd ar gael yn cael eu harddangos mewn lle amlwg			
Mae plant sy'n byw mewn llety dros dro o ganlyniad i VAWDASV yn gallu ymuno â'r ysgol yn gyflym			
Mae'r ysgol yn cyflenwi rhaglenni atal VAWDASV			
Mae'r staff i gyd wedi dilyn hyfforddiant VAWDASV priodol			
Mae'r staff yn wyladwrus o arwyddion rhybudd penodol pan allai plentyn fod wedi'i effeithio gan VAWDASV ac yn gwybod sut i gymryd camau gweithredu amddiffyn plant priodol			

Mae'r ysgol wedi datblygu cynllun cyfeillio, cefnogaeth gan gyfoedion a phrosiectau addysg			
Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amgen i blant wneud eu gwaith cartref			

Enghraifft o Bolisi Gweithle (wedi'i addasu o Bolisi Enghreifftiol Bristol Ideal)

Mae (Enw'r ysgol) yn cydnabod y bydd rhai cyflogeion ymysg y rhai y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt, naill ai fel dioddefwyr neu gyflawnwyr.

Mae gan (Enw'r ysgol) bolisi 'dim goddefgarwch' ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn ymrwymedig i sicrhau bod gan unrhyw gyflogai sy'n ddiodeffwr trais a chamdriniaeth o'r fath hawl i godi'r mater gyda'i gyflogwr gan wybod y bydd yn cael cefnogaeth a chymorth priodol.

Mae'r polisi hwn hefyd yn cwmpasu'r dull gweithredu a ddilynnir pan fydd pryder efallai mai'r cyflogai yw cyflawnwr y trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae (Enw'r ysgol) yn cydnabod bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fater sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac yn cymryd camau i beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un sydd wedi dioddef camdriniaeth o'r fath o ran ei gyflogaeth bresennol neu ddatblygiad yn y dyfodol.

1. Rôl y Cyflogwr

1.1 Dylai'r cyflogwr fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrth weithredu polisi a gweithdrefnau absenoldeb oherwydd salwch. Os bydd y cyflogwr yn amau mai trais a chamdriniaeth sydd o bosibl wrth wraidd absenoldeb dylai'r cyflogwr geisio creu amgylchedd cefnogol ble y gall y cyflogai ddatgelu'r gamdriniaeth pe byddai am wneud hynny. Ni ddylai'r cyflogwr roi pwysau ar y cyflogai i roi gwybodaeth iddo yn y cyd-destun hwn.

1.2 Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i gyflogeion am ffynonellau cymorth a gwasanaethau i gyflogeion y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i bob cyflogai ac nid dim ond i'r rhai sy'n gweithio mewn swyddfa. I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau gweler <http://bywhebofn.llyw.cymru>

1.3 Dylid gwneud trefniadau i roi pwerau yn ôl disgrisiwn i gyflogwyr er mwyn caniatáu amser rhesymol o'r gwaith i unrhyw gyflogai sy'n chwilio am gymorth i ddianc rhag trais a chamdriniaeth e.e. ymgynghori â chyfreithiwr neu fynd i apwyntiad tai. Gallai hyn fod ar ffurf absenoldeb awdurdodedig ychwanegol.

1.4 Pan fo trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar blentyn y cyflogai, efallai bydd angen caniatáu absenoldeb ychwanegol i'r cyflogai.

1.5 Efallai y bydd cyflogeion am newid neu leihau eu horiau gwaith oherwydd effeithiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a dylai cyflogwyr ystyried

ceisiadau o'r fath mewn ffordd gadarnhaol er mwyn cefnogi a darparu ar gyfer y cyflogai ble bynnag y bo'n bosibl.

1.6 Ar ôl i gyflogwr ddod i wybod am achos o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol dylai'r cyflogwr drafod â'r cyflogai a oes unrhyw risg i'r cyflogai tra bydd yn y gwaith. Os yw'r cyflogai o'r farn bod risg iddo, dylai'r cyflogwr gynnal asesiad risg a chymryd camau i leihau risgiau yn y gweithle e.e. mesurau diogelwch ychwanegol ger mynedfa'r adeilad, ymyrryd â galwadau ffôn, trosglwyddo i leoliad arall, adleoli. Pan fydd achosion yn y gwaith dylid cofnodi'r rhain a'u dilyn o dan y Polisi Iechyd a Diogelwch. Efallai y bydd angen i gyflogeion geisio cyngor cyfreithiol o ran cael gwaharddeb yn erbyn y cyflawnwr yng nghyffiniau'r gweithle.

1.7 Mae'r cyflogwr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cyfrinachedd bob amser ac am sicrhau y caiff gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ond ei rhannu â phartion eraill pan fo angen a phan fo'r cyflogai wedi rhoi caniatâd. Dylid cymryd camau priodol i sicrhau nad yw ffeiliau sy'n cynnwys gwybodaeth am y rhai sy'n profi trais a chamdriniaeth yn cynnwys manylion eu cyfeiriad presennol, yn arbennig os yw'r cyflogai yn byw mewn lloches. Efallai y bydd angen cadw cyfeiriadau ar wahân er mwyn sicrhau nad oes gan y camdriniwr unrhyw ffordd o gael gafael arnynt.

1.8 Dylai'r cyflogwr fod yn ymwybodol y gallai rhai cyflogeion fod yn dramgwyddwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu hunain a bod cyfrinachedd yn hollbwysig gan y gallai'r dioddefwr a'r cyflawnwr fod yn gweithio yn yr un sefydliad.

1.9 Os bydd y cyflogai yn datgelu trais a chamdriniaeth o'r fath dylai'r cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth am ffynonellau cymorth ar gael i'r cyflogai a dylai gynnig cymorth.

1.10 Gallai cyflogeion yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn absennol o'r gwaith o bryd i'w gilydd. Eto dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol neu fod â rheswm i gredu nad dyma wraidd y mater a dylent gefnogi'r cyflogai i chwilio am gymorth a gweithio tuag at ddatrys y mater. Dylai'r cyflogwr ystyried a yw'n briodol cyhoeddi rhybuddion salwch pan fydd yn hysbys mai trais a chamdriniaeth o'r fath yw'r achos. Dylai cyflogwyr ganolbwyntio ar gefnogi yn hytrach na chosbi cyflogeion yr effeithir arnynt.

2. Cyflogeion a Chydweithwyr

2.1 Os ydych yn gyflogai sydd wedi'i effeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol efallai yr hoffech ofyn am gymorth a gwybodaeth gan eich rheolwr llinell, tîm personél, cynrychiolydd iechyd galwedigaethol a/neu undeb llafur. Mae amrywiaeth o asiantaethau a gwasanaethau ar gael a all helpu (<http://bywhebofn.llyw.cymru>).

2.2 Os yw cydweithiwr yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a/neu drais rhywiol mae'n bwysig bod yn gefnogol a sicrhau bod gwybodaeth am ffynonellau cymorth ar gael ar ei gyfer.

3. Aflonyddwch yn y Gwaith

3.1 Nid yw aflonyddwch yn y gwaith yn dderbyniol ac yn aml mae'n anghyfreithlon. Dylai cyflogwyr sicrhau bod cyflogeion yn gwybod bod jôcs, sylwadau sy'n bychanu, yn condemnio neu hyd yn oed yn annog trais neu gamdriniaeth yn gwbl annerbyniol, a dylent ymdrin yn effeithiol ag unrhyw achosion a ddaw at eu sylw.

4. Cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

4.1 Dylai cyflogeion sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn ymwybodol bod ymddygiad o'r fath yn groes i'r polisi hwn. Mae rhai mathau o drais a chamdriniaeth yn drosedd.

4.2 Gall cyflogeion sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael eu disgyblu.

4.3 Dylai cyflogeion a gaiff eu cyhuddo neu eu collfarnu yn y llys oherwydd trais neu gamdriniaeth o'r fath ddatgan hyn yn ffurfiol i'r cyflogwr. Pan fo'r cyflogwr o'r farn bod goblygiadau i waith y cyflogai yn sgil y cyhuddiadau/collfarn (e.e. pan fo cyflogai yn gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed) dylid cynnal ymchwiliad i asesu unrhyw risgiau a chymryd camau lliniaru yn unol â hynny e.e. adleoli, atal o'i ddyletswyddau dros dro, symud lleoliad gwaith neu gam gweithredu priodol arall.